

# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar

# Ysgol Gynradd Carrog

**Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2022**

gan Estyn, Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

# Trosolwg

Mae arweinwyr a staff ar draws Ffederasiwn Ysgol Caer Drewyn ac Ysgol Carrog yn gweithio gyda'i gilydd yn dda i ddarparu amgylchedd dysgu ysgogol a phwrpasol ar gyfer yr holl ddisgyblion. Mae ganddynt ddisgwyliadau a dyheadau uchel i ddisgyblion fod y gorau y gallant fod. Mae datblygu agweddau cryf at ddysgu, parch at bobl eraill a chefnogi lles disgyblion a staff wrth wraidd gweledigaeth a gwerthoedd y ffederasiwn. O ganlyniad, mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi, ac yn cyfrannu'n dda at fywyd eu hysgol.







Mae athrawon ac aelodau staff eraill yn Ysgol Carrog yn addasu'r addysgu a'r dysgu yn dda iawn i ddiwallu anghenion dysgwyr. Mae addysgu a dysgu effeithiol, ynghyd â chwricwlwm cyfoethog ac amrywiol, yn sicrhau bod disgyblion yn dangos diddordeb yn eu dysgu ac yn gweithio'n dda yn annibynnol a gyda chyfoedion i gwblhau eu 'tasgau' neu'u heriau. Mae hyn yn helpu meithrin agweddau cadarnhaol at ddysgu a medrau effeithiol o ran dysgu'n annibynnol. Caiff disgyblion gyfleoedd pwrpasol i ymarfer eu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol yn dda trwy dasgau a phrofiadau dysgu cyfoethog, ond mae'r ddarpariaeth ar gyfer y Gymraeg ar draws yr ysgol yn llai datblygedig. Yn ychwanegol, mae gallu disgyblion i adnabod yr hyn maent yn ei wneud yn dda a sut gallant wella'u gwaith yn gyfyngedig.

Mae'r pennaeth, arweinwyr eraill ac aelodau o'r corff llywodraethol yn adnabod eu cymuned yn dda. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o anghenion eu disgyblion a'u teuluoedd, ac maent yn gweithio'n ddiwyd â rhanddeiliaid eraill i'w cynorthwyo cystal ag y gallant. Mae hwn yn gryfder yn yr ysgol ac yn helpu i feithrin perthnasoedd cadarnhaol ar draws cymuned gyfan yr ysgol. O ganlyniad, mae bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol.

# Argymhellion

**A1** **Gwella cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu a gwneud cynnydd da yn eu medrau siarad Cymraeg**

**A2** **Cryfhau adborth athrawon a chyfleoedd i ddisgyblion fyfyrio ar eu gwaith fel eu bod yn gwybod beth i'w wneud i wella**

# Beth sy'n digwydd nesaf

**Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.**

**Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ar ei gwaith yn gysylltiedig â datblygu cwricwlwm cyfoethog ac addysgu effeithiol sy'n diwallu anghenion pob un o'r dysgwyr, ac yn hyrwyddo agweddau cryf at ddysgu, i'w lledaenu ar wefan Estyn.**



# Cyd-destun yr ysgol

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gynradd Carrog |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Ddinbych |
| Iaith y darparwr | Saesneg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 42 |
| Disgyblion o oed ysgol statudol | 38 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector cynradd yw 21.3%) | 16.0% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector cynradd yw 22.2%) | 21.1% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 23.8% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/09/2012 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol) | 24/01/2012 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 21/11/2022 |

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 27/01/2023

Sylwer, efallai na fydd y ffotograffau sy'n cael eu dangos yn rhai o'r ysgol sy'n destun yr adroddiad hwn.